




ADRODDIAD CYFFREDINOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU 2004

Adroddiad a baratowyd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru



Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio
Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriol
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd,
CF10 1PT
Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20%
virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy
i gynhyrchu papur Greencoat.

DG Cyf: 4161VE

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o
dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Mehefin 2004

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad
Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig
cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r
Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad
a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu
gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan
Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Roedd Mike Usher, Geraint Morgan, Jeannette Sweet, Joanne Peddle a
Kay Palmer yn nhim astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Os am fwy
o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: gillian.body@nao.gsi.gov.uk
ian.summers@nao.gsi.gov.uk

Cyfeiriad safle'r Wê: <http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm>





ADRODDIAD CYFFREDINOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU 2004

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Mehefin 2004

Cynnwys

Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru	1
---	---

Rhan 1

Cyflwyniad	2
Yr hyn a drafodir yn yr adroddiad hwn	2

Rhan 2

Archwiliad Ariannol yn 2002-03	3
Cyflwyniad	3
Archwilydd Cyffredinol Cymru	3
Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru	3
Rôl y Swyddog Cyfrifo	4
Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau archwiliadau	5
Adroddiadau ar gyfrifon	6

Rhan 3

Ychwanegu Gwerth	9
Cyflwyniad	9
Cyflwyno adroddiad i reolwyr cleien	9
Cyflwyno adroddiad i Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru	9
Canfyddiadau sy'n deillio o Waith Archwilio 2002-03	9
Rheolaeth gorfforaethol	12
Perfformiad talu	13
Gweithio gydag archwilwyr eraill	13

Rhan 4

Gwasanaethau eraill a ddarperir	15
Cyflwyniad	15
Cyngor arall i reolwyr cleientiaid	15
Cyngor arall i randdeiliaid	17

Rhan 5

Caffael	19
Cyflwyniad	19
Adolygiad o Weithdrefnau Caffael	19
Tim Menter Gaffael Cymru	20

Rhan 6

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd	23
Cyflwyniad	23
Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru	23
Rheoli'r Rhaglenni	24
Cau'r Hen Raglenni (1994-1999)	26
Archwilio ceisiadau a wnaed mewn perthynas â'r Rhaglenni Ewropeaidd newydd	29

Rhan 7

Edrych i'r Dyfodol	32
Cyflwyniad	32
Cleientiaid newydd: 2003-04 a thu hwnt	32
Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru	33
Un Corff Archwilio i Gymru	34
Ychwanegu gwerth	34

Atodiadau

A Rhestr o adroddiadau Gwerth am Arian a gyhoeddwyd yn 2002-03	35
B Cyfrifon a gwmpesir yn yr adroddiad hwn	36

Rhestr o Ffigurau a ddefnyddir yn yr Adroddiad

1 Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2002-03	4
2 Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo	5
3 Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau gwaith archwilio ariannol	5
4 Costau cyflogi nyrsys asiantaeth o fewn GIG Cymru	8
5 Enghreifftiau o wiriadau a wneir fel rhan o'r gwaith ar adroddiadau 'Sicrwydd Ychwanegol'	10
6 Argymhellion a wnaed i reolwyr cleientiaid 2000-01 i 2002-03	11
7 Perfformiad talu ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2000-01 i 2002-03	13
8 Manteision rheoli ariannol ar sail adnoddau	16
9 Dadansoddiad o arsylwadau yn ymwneud â Chaffael	20
10 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd	23
11 Rhaglenni Amcan	24
12 Ardaloedd Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Prif ffrwd, 2000-2006	25
13 Ystadegau ar gyfer cau rhaglenni fesul rhaglen	26
14 Cynnwys datganiadau cau	27
15 Enghreifftiau o ganfyddiadau allweddol yn adroddiadau Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru	28
16 Enghreifftiau o'r rhesymau dros roi barn amodol ar dystysgrifau archwilio ar gyfer prosiectau a ariennir drwy arian Ewropeaidd	31
17 Yr amserlen ar gyfer paratoi Cyfrifon Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Gyfan	33



Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Cyffredinol hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae fy ngwaith archwilio ariannol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrrff cyhoeddus cysylltiedig yn fy ngalluogi i roi sicrwydd annibynnol bod y datganiadau ariannol blynyddol wedi'u paratoi'n gywir a bod yr incwm a'r gwariant wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd o dan statudau perthnasol y Deyrnas Unedig.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio ariannol a wnaed mewn perthynas â chyfrifon 2002-03. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd gwaith pwysig eraill yr ymgymeryd â hwy yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2004, gan gynnwys ymchwilio i faterion sydd wedi codi o'r ohebiaeth a anfonwyd ataf gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd, a'r gwaith o archwilio prosiectau a ariennir drwy gronfeydd Ewropeaidd.

Yn gyffredinol, credaf fod safonau rheoli a gonestrwydd ariannol yn parhau'n uchel yng Nghymru. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn disgrifiaf nifer o feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau, er enghraifft, y broses o fonitro, rheoli a dogfennu gwariant gan gyrrff sy'n dyfarnu grantiau. Mae stiwardiaeth ariannol effeithiol a bod yn atebol i'r cyhoedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff paratoi eu datganiadau cyfrif ariannol yn brydlon ar ôl i'w blwyddyn ariannol ddod i ben. Yn yr adroddiad, nodaf yr her y mae nifer o gyrrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei hwynebu i sicrhau bod eu hymarferion paratoi cyfrifon blynyddol yn fwy amserol. Hefyd, mae'n dda gennyf gydnabod yn yr adroddiad hwn rôl werthfawr Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth roi cyngor i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Senedd yn parhau i ystyried Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Os caiff ei wneud yn ddeddf, bydd y Mesur yn creu Swyddfa Archwilio newydd i Gymru, o dan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna bydd y sefyllfa bresennol, lle caiff gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ei archwilio gan ddau gorff gwahanol, sef y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, yn dod i ben ar 1 Ebrill 2005 a bydd staff y ddau sefydliad yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad archwilio unedig newydd. Croesawaf yn gynnes gynigion y Llywodraeth yn y Mesur sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd a chredaf y byddant yn atgyfnerthu ymhellach y gwaith o archwilio gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

Fy nod yw parhau i roi gwasanaeth archwilio effeithlon ac effeithiol i'm cyrrff cleientiaid a rhanddeiliad eraill, gan weithio gyda hwy i sicrhau gwelliannau yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu ac i roi sicrwydd annibynnol ynglŷn â gwariant cyhoeddus i'r Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru.

John Bourn

10 Mehefin 2004

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn crynhoi canlyniadau fy archwiliad a'm hardystiad o gyfrifon 2002-03, yr ardystiwyd yr olaf ar 26 Mawrth 2004. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio arall hyd at 31 Mawrth 2004.

1.2 Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â gwaith archwilio gwerth am arian Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, sy'n fy helpu i baratoi'r adroddiadau gwerth am arian yr wyf wedi'u cyhoeddi. Yn ystod 2002-03, cyhoeddais wyth adroddiad gwerth am arian, a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn ac sydd ar gael ar y rhyngwrwyd yn www.agw.gov.uk. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried ar wahân gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad ac mae cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael ar wefan y Cynulliad yn www.cymru.gov.uk.

Yr hyn a drafodir yn yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad rwyf yn:

Crynhoi canlyniadau, casgliadau ac adroddiadau o'm harchwiliadau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyfrif 2002-03.

Rhan 2

Nodi enghreifftiau o werth ychwanegol fy ngwaith i'm cleientiaid a'r themâu allweddol a ddeilliodd ohono.

Rhan 3

Disgrifio'r gwasanaethau eraill a roddaf i'm rhanddeiliad, er enghraifft wrth ymateb i faterion a godwyd mewn gohebiaeth oddi wrth Aelodau'r Cynulliad, ASau a'r cyhoedd.

Rhan 4

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau fy adolygiad o ddigonolrwydd y gweithdrefnau caffael sydd ar waith mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Rhan 5

Nodi canlyniadau fy ngwaith archwilio parhaus ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Rhan 6

Edrych ymlaen at ddatblygiadau o ran cyfrifo ac archwilio o fewn sector llywodraeth ganolog Cymru.

Rhan 7

Archwiliad Ariannol yn 2002-03

2

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi canlyniadau a chasgliadau fy ngwaith archwilio ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfrif 2002-03. Yn benodol, mae'n:
- nodi canlyniadau fy archwiliadau o bob un o'r cyfrifon a archwiliwyd gennyf yn 2002-03;
 - rhoi crynodebau o'r adroddiadau gwreiddiol a gyhoeddais ar gyfrifon Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, cyfrif cryno o awdurdodau iechyd Cymru ac ar iechyd ariannol GIG Cymru
- 2.2 Yn gyffredinol, mae safonau rheolaeth ariannol yn y cyrff cleientiaid ledled Cymru wedi parhau'n dda. Wrth ymgymryd â'i gwaith, ac fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yn gallu gwneud nifer fawr o argymhellion i'r Swyddogion Cyfrifo ac uwch reolwyr cyrff cleientiaid i wella systemau rheoli, cydymffurfiaeth â'r fframwaith rheoliadol a phrosesau cyfrifo.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

- 2.3 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'n ofynnol i mi drwy statud archwilio ac ardystio cyfrifon blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus penodol eraill, a chyflwyno adroddiad ar fy marn archwilio i'r Cynulliad.
- 2.4 Rwyf yn cynnal fy archwiliadau ariannol yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Yn gyffredin ag arferion y sector preifat, mae'r safonau archwilio hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- ymgymryd â gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i gael tystiolaeth archwilio ddigonol, dibynadwy a phriodol er mwyn penderfynu gyda hyder rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol;

- asesu'r ffordd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol er mwyn canfod a ydynt wedi'u paratoi yn unol â'r Safonau Cyfrifo a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon perthnasol.

- 2.5 At hynny, mae gofyniad, sy'n unigryw i gyrrff cyhoeddus, bod incwm a gwariant yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a/neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig a'u bod yn cydymffurfio â phob awdurdod a statud berthnasol sy'n rheoli - '**rheoleidd-dra**'.
- 2.6 Felly rwyf yn cynllunio fy archwiliadau i fodloni fy hun bod yr arian a ddarparwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu ganddo wedi cael ei ddefnyddio, ymhob ffordd berthnasol, at y dibenion a fwriadwyd yn unig. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rwyf hefyd yn ystyried i ba raddau yr ymdriniwyd ag arian cyhoeddus gyda **phriodoldeb** a'r ffordd y mae busnes cyhoeddus wedi cael ei gynnal.

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

- 2.7 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, o dan fy nghyfarwyddyd, yn gwneud y gwaith archwilio ariannol manwl sydd ei angen i mi ymgymryd â'm dyletswyddau a'm cyfrifoldebau statudol. Ar gyfer y flwyddyn gyfrif 2002-03, archwiliodd 32 o gyfrifon a gofnododd y rhaglenni gwariant a ariannwyd gan gyllideb bloc Cymru gwerth tua £10.5 biliwn.

2.8 Paratôdd y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo y cyfrifon a archwiliwyd yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Cynulliad a'r Trysorlys, fel y bo'n briodol. Mae'r gwahanol sefydliadau'n amrywio gryn dipyn o ran natur, maint a chymhlethdod ac maent yn gweithredu amrywiaeth o weithdrefnau ariannol a systemau cyfrifo. Mae **Ffigur 1** yn dangos amrywiaeth y cyfrifon a nifer y cyfrifon a archwiliwyd ar gyfer 2002-03 (ceir rhestr lawn yn Atodiad B i'r Adroddiad hwn).

Rôl y Swyddog Cyfrifo


- 2.9 Mae gan bob corff a archwiliaf 'Swyddog Cyfrifo' dynodedig - sef yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r Prif Weithredwr fel arfer. Mae'r rôl hon yn cynnwys cyfrifoldeb dros reoli ariannol o fewn y sefydliad fel y nodir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyfrif blynyddol.
- 2.10 Dengys **Ffigur 2** nifer o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo.

2.11 Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae pob Swyddog Cyfrifo yn cael ei gynorthwyo gan Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol neu Bwyllgor Archwilio'r corff a chan yr uwch dîm reoli, ynghyd â chynghor gan yr archwilwyr mewnol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

2.12 Gall pob Swyddog Cyfrifo gael ei alw i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad i roi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig ar adroddiadau a baratwir gennyf ar gyfrifon y cyrff y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Pwyllgor, o dan gadeiryddiaeth Aelod o'r Cynulliad sy'n aelod o wrthblaid, yn ystyried y dystiolaeth ac yna'n paratoi ei adroddiadau ei hun sy'n cynnwys argymhellion y mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb iddynt o fewn 30 diwrnod gwaith.

2.13 Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn ar gyfer archwilio a chyflwyno adroddiadau yn gwneud cyrff yn atebol iawn i'r cyhoedd ac yn rhoi sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth ac yn unol â bwriadau'r Cynulliad. Yng ngweddill yr adroddiad, nodaf ganfyddiadau a chanlyniadau allweddol fy ngwaith archwilio ariannol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2002-03.

1 Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2002-03




NODER

* Mae gan bedwar o'r cyrff hyn statws elusen

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

2

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chyfrifon Llywodraeth 2000

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau archwiliadau

2.14 Mae **Ffigur 3** yn dangos sut yr wyf yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau fy ngwaith archwilio ariannol:

3

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau gwaith archwilio ariannol

- **Tystysgrifau Archwilio ar y datganiadau ariannol**, sy'n mynegi'n glir fy marn archwilio;
- **Adroddiadau cyhoeddedig ar y cyfrif**, sy'n tynnu sylw'r Cynulliad at faterion sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar wariant cyhoeddus. (Rwyf bob amser yn cyflwyno adroddiad ar gyfrif pan roddaf farn archwilio amodol, a gallaf hefyd gyflwyno adroddiad ar faterion heb roi barn amodol os credaf eu bod o ddiddordeb mawr i Aelodau'r Cynulliad);
- **Adroddiadau nas cyhoeddir i reolwyr y corff cleientiaid sy'n cael ei archwilio**, sy'n tynnu sylw at feysydd lle gellir gwneud gwelliannau i systemau a gweithdrefnau ac yn rhoi argymhellion a chynghor adeiladol (a drafodir yn Rhan 3 yr adroddiad hwn).

Tystysgrifau Archwilio ar y atganiadau ariannol

- 2.15 Mae paratoi cyfrifon ar sail incwm a gwariant yn golygu llunio barn wrth benderfynu ar amcangyfrifon a pholisïau cyfrifo, a'r ansicrwydd sy'n rhan annatod o amcangyfrifon ariannol. Wrth asesu barn o'r fath, mae'r archwiliwr yn ystyried pwysigrwydd cymharol pob mater sy'n codi o'r archwiliad yng nghyd-destun y cyfrif cyfan. Ystyrir bod mater yn berthnasol os gellir yn rhesymol ddylanwadu ar ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wrth ddod i gasgliad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ynddynt pe bai'r mater yn cael ei gamddatgan neu ei hepgor. Nodaf fy marn a yw'r datganiadau ariannol wedi rhoi **darlun cywir a theg** ac a ydynt wedi'u **paratoi'n gywir** yn unol â'r statud berthnasol a chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 2.16 Nodaf fy marn hefyd a yw'r trafodion a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn rheolaidd; hynny yw, ym mhob ffordd berthnasol yr ymgwymerir â hwy yn unol â deddfwriaeth sylfaenol ac is-deddfwriaeth, rheoliadau eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion, a chydag awdurdod y Senedd a'r Trysorlys.

Fy marn archwilio yn 2002-03

- 2.17 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rhoddais farn ddiamed ar bob un ond un o'r 32 o gyfrifon yng Nghymru a ardystiwyd gennyf mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2002-03. Rhoddais farn amodol ar gyfrif cryno'r awdurdodau iechyd yng Nghymru. Yn fy adroddiad ar y cyfrif hwn esboniais pam y rhoddais farn amodol a nodir isod grynoded o'r adroddiad hwn, ynghyd â chrynodebau o'r adroddiadau hynny a gyhoeddwyd lle na roddais farn archwilio amodol.

Adroddiadau ar gyfrifon

2.18 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03, paratois adroddiadau sylweddol cyhoeddedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Cyfrif Cryno'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru;
- Iechyd Ariannol y GIG yng Nghymru.

Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru

2.19 Fy adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfrifon ELWa - Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru (y Cyngor Cenedlaethol) - oedd y trydydd adroddiad i mi ei baratoi ar y corff hwnnw ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2001.

2.20 Rhoddais farn archwilio amodol ar reoleidd-dra cyfrifon cyntaf y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2002, a chyhoeddais adroddiad gyda'r cyfrifon hyn ym mis Ionawr 2003 i esbonio mai'r rheswm dros hyn oedd bod y Cyngor Cenedlaethol wedi mynd i wariant afreolaidd o tua £2 filiwn yn ystod y cyfnod hwnnw ar gontractau caffael. Cyhoeddais adroddiad hefyd ym mis Medi 2003 ar y ffordd yr oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi rheoli ei brosiectau Partneriaeth ac Arloesedd a Datblygu. Yn yr adroddiad hwnnw nodwyd nifer o wendidau difrifol ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi trin nifer o brosiectau o fewn ei Raglen Arloesedd a Datblygu, gan gynnwys prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop.

- 2.21 Yn fy nhrydydd adroddiad, ar gyfrifon 2002-03 y Cyngor Cenedlaethol, nodais ganlyniadau fy archwiliad ar y cyfrifon hynny a rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a gymerwyd gan reolwyr y Cyngor mewn ymateb i'm dau adroddiad blaenorol. Nodais fod y Cyngor Cenedlaethol wedi rhoi nifer o fesurau ar waith er mwyn sicrhau rheolaeth dynnach dros weithdrefnau caffael. Yn sgîl profion gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cafwyd bod rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n drylwyr ac ategodd sicrwydd archwilwyr mewnol y Cyngor Cenedlaethol ei hun ynglŷn â digonolrwydd, dibynadwyedd ac effeithiolrwydd systemau caffael y corff. Nodais hefyd fod rheolwyr y Cyngor Cenedlaethol wedi cynnal adolygiad rheoli trylwyr a chyflawn o bob prosiect byw yn sgîl y gwendidau a amlygwyd mewn prosiectau gan gynnwys Caffi MP3 y Canolfan Bop. Rhoddwyd y cymeradwyaethau ôl-weithredol angenrheidiol yn y rhan fwyaf o achosion a chymerwyd camau i sicrhau na fydd sefyllfa o'r fath yn codi eto.
- 2.22 Fodd bynnag, cafwyd nifer o anawsterau wrth weithredu system gyfrifo newydd y Cyngor Cenedlaethol ac yn fy adroddiad crynhowyd y gwendidau sylweddol a nodwyd gan fy staff a chan dim archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol fel rhan o'i raglen waith flynyddol arfaethedig. Yn arbennig, gwnaeth y Cyngor Cenedlaethol daliadau dyblyg gwerth tua £27,000 i gyflenwyr yn ystod 2002-03. O ganlyniad i'r gwendidau a nodwyd o fewn y systemau ariannol rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn archwilio flynyddol amodol ar y system rheolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03. Disgrifiodd fy adroddiad y camau unioni a gymerwyd o ganlyniad i hyn a nododd hefyd fod camau priodol yn cael eu cymryd i adennill yr arian a dalwyd drwy gamgymeriad.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- 2.23 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (y Cyngor) yn rhannu ei systemau ariannol craidd a'i brosesau busnes allweddol eraill gyda Chyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru. Yn fy adroddiad gwneuthum sylwadau ar rai o'r materion a godwyd gan Brif Weithredwr y Cyngor yn ei Ddatganiad ar Reolaeth Fewnol mewn perthynas â chyfrifon blynyddol 2002-03 y Cyngor.

- 2.24 Mae Datganiad y Prif Weithredwr ar Reolaeth Fewnol yn nodi'n fanwl nifer o wendidau o fewn systemau ariannol y Cyngor yn ystod 2002-03 a'r rhesymau drostynt, ynghyd â'r camau a gymerwyd i unioni'r materion hynny. Ymhlith y gwendidau roedd yr anawsterau a gafodd y Cyngor a'r Cyngor Cenedlaethol wrth weithredu eu system gyfrifo newydd. Fel gyda'r Cyngor Cenedlaethol, arweiniodd y gwendidau at wneud rhai mân daliadau dyblyg.

Cyfrif Cryno'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru

- 2.25 Wrth gynnal fy archwiliad o gyfrifon cryno'r awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau yng Nghymru, rhoddaf sylw i'r gwaith a wnaed gan archwilwyr y cyrff hynny, a benodir gan y Comisiwn Archwilio (yr "archwilwyr penodedig"). Yn 2002-03, am y drydedd flwyddyn yn olynol, rhoddais farn archwilio amodol ar reoleidd-dra cyfrif cryno'r awdurdodau iechyd yng Nghymru mewn perthynas â diffygion posibl mewn incwm o bresgripsiynau. Roedd y farn amodol hon yn dilyn barn amodol a roddwyd gan yr archwilwyr penodedig ar gyfrifon 2002-03 pedwar o'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru. Disgrifir y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud i fynd i'r afael â thwyll ym Mhara 2.32.
- 2.26 Yn fy adroddiad nodais hefyd fod archwilwyr penodedig y Bwrdd Arferion Deintyddol wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2002-03 y Bwrdd ar gyfer Cymru a Lloegr ar y sail y gallai'r diffyg rheolaethau o bosibl arwain at daliadau amhriodol, er enghraifft drwy gamgymeriad gweinyddol, camddealltwriaeth o reoliadau, gwaith o safon wael neu waith amhriodol ac achosion o ladrata bwriadol.

Iechyd ariannol y GIG yng Nghymru

- 2.27 Cyhoeddwyd fy adroddiad blynyddol ar gyllid GIG Cymru ar gyfer 2004 ar 1 Ebrill 2004. Yn yr adroddiad hwnnw, gwneuthum sylwadau ar faterion ynglŷn â pherfformiad ariannol yn 2002-03 ac ystyriais hefyd heriau allweddol eraill a oedd yn effeithio ar y ffordd y câi gwasanaethau eu cyflwyno, gan gynnwys ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru a'r cynnydd wrth fynd i'r afael â thwyll.

Perfformiad Ariannol GIG Cymru

2.28 Parhaodd iechyd ariannol GIG Cymru i ddirywio'n sylweddol yn ystod 2002-03. Y canlyniad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg o £37 miliwn, o gymharu â diffyg o £16 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i gymunedau iechyd lunio Rhaglenni Newid Strategol ac Effeithlonrwydd i gael gwared ar ddiffygion erbyn Mawrth 2006.

Costau Newid Strwythurol

2.29 Ar 31 Mawrth 2003, diddymwyd y pum awdurdod iechyd a sefydlwyd 22 o Fyrddau Iechyd Lleol yn eu lle. Roedd gan yr awdurdodau iechyd yng Nghymru ar y dyddiad y'u diddymwyd ddiffyg net cronol o £60.2 miliwn. Nododd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2002 mai tua £12.5 miliwn i £15.5 miliwn fyddai'r costau trosiannol. Rhoddwyd amcangyfrif diwygiedig o'r gyllideb ar gyfer y costau trosiannol, sef £10.9 miliwn i £14.1 miliwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2003. Nododd fy adroddiad fod y rhagamcan diweddaraf sydd ar gael, sef £12.57 miliwn, heb gynnwys cyllid trosiannol ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, o fewn ystod y gyllideb a gymeradwywyd.

Heriau y mae GIG Cymru yn eu hwynebu

2.30 **Cost Staff Nyrsys Asiantaeth:** Mae'r gost o ddefnyddio staff nyrsio asiantaeth yng Nghymru yn parhau i gynyddu'n sylweddol bob blwyddyn, fel y dengys **Ffigur 4**.

4 Costau cyflogi nyrsys asiantaeth o fewn GIG Cymru

	£ miliwn
2002-2003	18
2001-2002	15
2000-2001	10
1999-2000	8

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

Mae'r costau yn 2002-03 tua 1 y cant o gyfanswm bil cyflog y GIG. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio nifer o fentrau i leihau'r gwariant hwn a bydd hefyd yn gosod targedau i ymddiriedolaethau ar gyfer lleihau'r defnydd a wneir o nyrsys Asiantaeth. Yn ogystal, mae pob ymddiriedolaeth wedi datblygu strategaethau Recriwtio a Chadw a roddwyd ar waith yn 2003-04.

2.31 **Cronfa Risg Cymru:** Yn ystod 2002-03, cryfhaodd Cronfa Risg Cymru ei threfniadau rheoli ariannol. Mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi helpu i sicrhau bod y Gronfa wedi setlo 246 o hawliadau am esgeuluster clinigol ac anaf personol, sef gwariant o £43 miliwn, o'i chyllideb ei hun heb yr angen i godi taliadau ychwanegol ar gyrf y GIG.

Cynnydd wrth fynd i'r afael â Thwyll yn y GIG

2.32 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf parhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwrth-dwyll y GIG i ddatblygu strwythur effeithiol i drechu twyll yng Nghymru. Yn fy adroddiad nodais ganlyniadau'r gwaith hwn, gan gynnwys canlyniadau ail ymarfer mesur i amcangyfrif faint o incwm a gollir o ganlyniad i dwyll gan Gleifion a Chontractwyr Optegol yng Nghymru. Daeth yr ymarfer i'r casgliad fod twyll optegol yng Nghymru wedi gostwng o £1.2 miliwn y flwyddyn i £0.9 miliwn y flwyddyn.

2.33 Rhwng mis Hydref 2002 a mis Rhagfyr 2003 edrychodd yr Uned Cadarnhau ar ôl Gwneud Taliadau ar tua 350,000 o bresgripsiynau ac adenillodd gyfanswm o £31,000 o incwm; adenillwyd £34,000 arall drwy roi cosbau a chodi gordal. Sefydlwyd yr Uned yn 2002-03 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i geisiadau gan bobl i gael eu heithrio rhag talu am bresgripsiynau.

2.34 Sefydlwyd Gwasanaeth Gwrth-dwyll GIG (Cymru) gan y Gwasanaeth Rheoli Gwrth-dwyll a Diogelwch ym mis Awst 2001. Nododd fy adroddiad fod 37 o achosion honedig o dwyll wedi cael eu cyfeirio ato ers hynny a'i fod wedi adennill £233,402 a'i fod wrthi'n ymchwilio i achosion a oedd yn ymwneud â chyllid o ryw £550,000.

Ychwanegu Gwerth 3

Cyflwyniad

- 3.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad, disgrifiaf yr amrywiol wasanaethau archwilio a roddir i'm cleientiaid sy'n deillio o'r gwaith archwilio ariannol blynyddol a wneir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar fy rhan a thynnaf sylw at y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith hwn ar gyfrifon 2002-03.

Cyflwyno adroddiad i reolwyr cleient

- 3.2 Wrth gynnal archwiliad o ddatganiadau ariannol blynyddol corff, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn asesu digonolrwydd systemau a chofnodion cyfrifo corff i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i lunio barn ar y cyfrifon. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gall Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gynnig **cyngor adeiladol i reolwyr** lle mae'n nodi gwendidau o ran cynllun y systemau hyn neu'r ffordd y cânt eu gweithredu neu eu defnyddio neu welliannau posibl y gellid eu gwneud i effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd gweithrediadau'r cleient.

Llythyrau Rheoli

- 3.3 Yn aml caiff cyngor a roddir yn ystod archwiliad ei roi ar lafar. Fodd bynnag, caiff y materion pwysicaf eu codi'n ffurfiol ar ddiwedd yr archwiliad ar ffurf **llythyr rheoli** wedi'i gyfeirio at uwch reolwyr y cleient. Mae rheolwyr y cleient yn cytuno ar bob un o arsylwadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ran cywirdeb ffeithiol ac maent yn rhoi ymateb ffurfiol o sylwedd i bob pwynt a godwyd, ynghyd â dyddiad targed ar gyfer gweithredu pob un o'r argymhellion a wnaed. Mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro cynnydd. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydnabod bod angen rheolaethau er mwyn gweithredu'n gost effeithiol, a'i nod yw llunio argymhellion ymarferol sydd o gymorth gwirioneddol i gleientiaid wrth iddynt geisio cynnal eu busnesau yn effeithlon ac yn effeithiol heb greu biwrocratiaeth ddiangen.

Cyflwyno adroddiad i Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- 3.4 Rwyf hefyd yn ymgymryd ag **adolygiadau sicrwydd ychwanegol** o Gyrrf Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gais Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad. Bwriad yr adolygiadau hyn yw rhoi sicrwydd i reolwyr y cyrrf archwiliedig a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ychwanegol at y sicrwydd a roddir gan yr archwiliad allanol safonol o'r cyfrifon eu hunain. Mewn sawl achos, gall y gwaith hwn hefyd ychwanegu gwerth drwy argymhell gwelliannau i systemau, rheolaethau a gweithdrefnau gweithredu.


Adolygiadau Sicrwydd Ychwanegol

- 3.5 Er bod cwmpas manwl gywir pob adolygiad yn cael ei deilwra i fframwaith gweithredol y corff archwiliedig, mae i bob adolygiad elfennau craidd penodol. Dengys **Ffigur 5** rai o'r gwiriadau sydd â'r nod o roi'r sicrwydd angenrheidiol i Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a rheolwyr y corff archwiliedig.

Canfyddiadau sy'n Deillio o Waith Archwilio 2002-03

Argymhellion a wnaed yn deillio o'r gwaith archwilio


- 3.6 Mae canlyniadau cyffredinol fy ngwaith archwilio ariannol yn awgrymu bod safonau rheolaeth ariannol mewn cyrrf cleientiaid archwiliedig ledled Cymru yn parhau'n dda, yn gyffredinol, yn ystod 2002-03. Fodd bynnag, roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu gwneud nifer o argymhellion yn ei Llythyrau Rheoli i reolwyr cleientiaid ar gyfer gwella amgylchedd au rheoli a phrosesau cyfrifo'r cyrrf. Nodais hefyd achosion o beidio â chydymffurfio â Memoranda Ariannol a Datganiadau Rheoli mewn sawl un o'm hadroddiadau 'Sicrwydd Ychwanegol' i reolwyr cleientiaid a Llywodraeth Cynulliad Cymru.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

- 3.7 Gwnaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 160 o argymhellion yn y Llythyrau Rheoli a'r adroddiadau Sicrwydd Ychwanegol a gyhoeddwyd o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ar gyfrifon a gweithrediadau'r cyrff archwiliedig ar gyfer y flwyddyn 2002-03. Mae **Figur 6** yn rhoi dadansoddiad o'r argymhellion a wnaed, yn ôl categori.
- 3.8 Dengys dadansoddiad o Ffigur 6, er bod nifer yr argymhellion yr oedd angen eu gwneud yn y rhan fwyaf o gategoriau wedi gostwng, bod argymhellion ynglŷn â 'Rheoleidd-dra a Phriodoldeb' wedi cynyddu o ddim ond 4 argymhelliad a wnaed yn 2001-02 i gyfanswm o 20 o argymhellion yn 2002-03. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai olaf yn ymwneud â grantiau neu gaffael, a rhoddaf adroddiad manylach ar y pynciau hyn ym mharagraffau 3.9 - 3.13 a Rhan 5 o'r adroddiad hwn.
- 3.9 Yn y paragraffau dilynol, manylaf ar thema sydd wedi dod i'r golwg o'r pwyntiau a godwyd yn fy Llythyrau Rheoli o'r archwiliad o gyfrifon 2002-03: **grantiau a ddyfarnwyd gan gyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.**
- 3.10 Yn fy Adroddiad Cyffredinol yn 2001, nodais fod angen i bob corff sy'n dyfarnu grantiau sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol ar waith ar gyfer arfarnu ceisiadau am grant; a'i bod yn hanfodol monitro grantiau'n amserol yn ystod y prosiect ac ar ôl i'r prosiect sy'n cael ei ariannu ddod i ben er mwyn diogelu arian cyhoeddus a sicrhau gwerth da am arian. Nodais i argymhellion ynglŷn â chymeradwyo a monitro grantiau gael eu codi gyda sawl cleient archwilio a rhoddais enghreifftiau o'r rhain.
- 3.11 Mae gwariant ar grantiau yn faes gweithgaredd pwysig i lawer o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac yn 2002-03 dyfarnwyd tua £800 miliwn mewn grantiau. (Y diffiniad o grant at y diben hwn yw gwariant a oedd yn golygu: arfarnu'r cais; y posibilrwydd bod amodau'n gysylltiedig â'r dyfardal neu'r cynnig; rhyw fath o fonitro yn ystod cyfnod y prosiect; a phosibilrwydd y gellid adfachu'r grant os na fodlonwyd ei amodau.)

6 Argymhellion a wnaed i reolwyr cleientiaid 2000-01 i 2002-03



NODER

- 1 Argymhellion i sicrhau y caiff gweithdrefnau ariannol priodol eu dilyn ac y bydd cyfrif am drafodion yn unol â safonau cyfrifo a chyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM
- 2 Argymhellion i sicrhau y caiff trafodion eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli
- 3 Argymhellion i sicrhau bod asedau a ddelir gan y corff yn cael eu rheoli a'u diogelu
- 4 Argymhellion i wella'r broses o nodi a rheoli risgiau

Nodyn: nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys argymhellion a wnaed yn sgîl yr archwiliadau o'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Fenter Goedwigaeth gan nad yw'r argymhellion yn ymwneud yn benodol â gweithrediadau'r ddau sefydliad hyn yng Nghymru.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

3.12 Eleni gwneuthum dri deg o arsylwadau i gyd yn ymwneud â gwariant grant mewn cysylltiad â chyfrifon deg corff unigol. Roedd yr arsylwadau a wnaed yn ymwneud â nifer o wendidau mewn rheolaeth fewnol gan gynnwys tanddatgan ymrwymyadau gwariant grant, methiant i gydymffurfio â chanllawiau grant, a methiant i ddogfennu penderfyniadau ynglŷn ag arian. Ymhlith yr enghreifftiau penodol roedd:

- Talu grantiau a oedd yn fwy na'r uchafswm a ganiatawyd.
- Methu â didynnu ffioedd cadw o flaendaliadau.
- Taliadau'n parhau ar ôl i amodau'r grant gael eu torri, er enghraifft, heb dderbyn tystysgrif archwilio i ategu gwariant.
- Gwneud taliadau grant pan nad oedd unrhyw dystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â gofynion y grant i ddarparu cyfrifon archwilledig am dair blwyddyn i ategu'r cais am grant.
- Talu rhandaliad olaf y grant heb dderbyn ffurflen monitro a gwerthuso angenrheidiol.

3.13 Yn anochel, o ystyried y nifer fawr iawn o daliadau grant a wneir o dan lu o gynlluniau grant, bydd pwyntiau bob amser yn codi yn ystod fy archwiliad. Fodd bynnag, mae llawer y gall cyrff sy'n dyfarnu grantiau ei wneud o hyd i atgyfnerthu rheolaethau yn y maes hwn. Pwysleisiaf fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff a noddir ganddi asesu'n barhaus y systemau sydd ar waith ar gyfer monitro, rheoli a dogfennu gwariant grant a chymryd camau unioni yn ôl yr angen.

Diffyg gweithredu gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol

3.14 Yn fy adroddiad yn 2003, ymrwymais i adolygu'r sefyllfa o ran diffyg gweithredu gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion a wnaed gennyf mewn blynyddoedd blaenorol. Fy nghanfyddiadau eleni yw bod achosion o hyd lle roedd rheolwyr cleientiaid wedi cytuno ar gamau gweithredu mewn ymateb i bwyntiau a godwyd mewn llythyrau rheoli, neu arsylwadau a wnaed mewn adroddiadau sicrwydd ychwanegol ond nad oeddent wedi eu cymryd.

3.15 Nodir yn gryno isod ganlyniadau fy adolygiad, ar 31 Mawrth 2004:

- Roedd 13 o gyrff archwilio heb gymryd pob un o'r camau gweithredu mewn cysylltiad ag argymhellion mewn llythyrau rheoli a godwyd ynglŷn â'u cyfrifon ar gyfer 2001-02
- Roedd dau o'r gyrff hyn hefyd wedi methu â chymryd pob un o'r camau gweithredu mewn cysylltiad ag argymhellion mewn llythyrau rheoli a godwyd o'm harchwiliad o'u cyfrifon ar gyfer 2000-01.

3.16 Awgryma fy nghanfyddiadau a ddangosir uchod fod angen i uwch reolwyr mewn llawer o'r gyrff a archwilir gennyf wneud rhagor i sicrhau bod y camau y cytunwyd arnynt mewn ymateb i argymhellion archwiliad yn cael eu cymryd mewn gwirionedd ac yn cael eu cymryd yn amserol. Felly, disgwyliaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r gyrff a noddir ganddi roi blaenoriaeth i gymryd y camau gweithredu sy'n weddill yn ystod y flwyddyn i ddod. Gall y gwaith monitro a wneir gan Bwyllgorau Archwilio'r gyrff ar y cynnydd a wneir yn y maes hwn fod o gymorth yn hyn o beth. Byddaf hefyd yn cyfarwyddo staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i barhau i adolygu'r sefyllfa fel rhan o archwiliadau ariannol sydd i'w cynnal ar gyfrifon 2003-04.

Cyflwyno Cyfrifon i'w Harchwilio

3.17 Fel rhan o'i phroses gynllunio, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cytuno ar restr o ddyddiadau allweddol gyda phob un o'i chleientiaid ar gyfer paratoi ac archwilio cyfrifon y mae'r naill a'r llall, gyda'i gyilydd, yn anelu at eu cadw. Mae'r ddisgyblaeth hon nid yn unig yn sicrhau y caiff y cyfrifon eu paratoi, eu harchwilio a'u hardystio erbyn dyddiadau terfynol statudol ond mae hefyd yn helpu'r ddau barti yn y broses archwilio i gynllunio o ran eu hadnoddau.

3.18 O'r 32 o gyfrifon ar gyfer 2002-03 a archwiliwyd gan fy staff, ni chyflwynwyd chwe chyfrif i'w harchwilio erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. O'r rhain, ni chyflwynwyd un cyfrif wedyn erbyn y dyddiad terfynol statudol er mwyn iddynt gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifo. Bydd fy staff unwaith eto yn cytuno ar ddyddiadau allweddol ar gyfer yr archwiliadau o gyfrifon 2003-04 fel rhan o'r gweithdrefnau cynllunio sefydledig a

disgwyliaf i'r gyrff hyn na chyflwynasant eu cyfrifon erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn 2002-03 roi gwell gweithdrefnau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau na chyflwynant eu cyfrifon yn hwyr eto.

Rheolaeth gorfforaethol

3.19 Yn fy adroddiadau blaenorol, nodais sut y mae fy staff wedi gweithio gyda chyrrff archwiliedig i sicrhau y bodlonir gofynion Canllawiau'r Trysorlys mewn perthynas â Rheolaeth Gorfforaethol. Mae hyn, er enghraifft, wedi cynnwys mynychu gweithdai i reolwyr a gwaith cyswllt arall.

3.20 Mae canllawiau 'arfer gorau' yn annog sefydliad i nodi'r risgiau posibl y gall eu hwynebu, eu dadansoddi a'u cofnodi'n ffurfiol. Er mwyn i'r broses rheoli risg fod yn rhan wirioneddol annatod o'r sefydliad, dylid ei ffurfioli a rhaid iddi fod yn rhan o brosesau rheoli arferol sefydliad. Ar ôl cofnodi risgiau a nodwyd dylid sefydlu cofrestr risgiau a ddylai gael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd wedyn.

3.21 Fel rhan o'i gweithdrefnau archwilio ariannol arferol mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn adolygu prosesau rheoli risg gyrff archwiliedig er mwyn sicrhau nad yw cynnwys eu Datganiadau o Reolaeth Fewnol yn groes i wybodaeth archwilydd o fusnes pob sefydliad. Mae hefyd yn sicrhau nad yw canlyniadau profion archwilio yn rhoi unrhyw arwydd nad yw'r Datganiad yn adlewyrchu o bosibl effeithiolrwydd fframwaith rheoli'r corff yn fanwl gywir. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae staff archwilio yn archwilio a yw sefydliadau wedi cymryd camau i ddogfennu'r risgiau a nodwyd ganddynt drwy gofrestr risg.

3.22 O'r gyrff a archwiliais yn 2002-03, mae cofrestrau risg wedi'u sefydlu bellach ymhob un ohonynt ond un corff (cymharol newydd). Mae'n arfer da rhannu'r cyfrifoldeb dros reoli risgiau unigol ar draws y sefydliad. Mae hyn nid yn unig yn lleihau'r risg o or-ddibyniaeth ar un neu nifer fach o staff y cleientiaid ond mae hefyd yn helpu i sicrhau bod y broses o reoli risg yn rhan wirioneddol annatod o'r sefydliad a bod pob adran o'r corff yn ei chymryd o ddifrif. Fe'm calonogwyd i ganfod bod cyfrifoldeb dros reoli risgiau wedi'i rannu ar draws y sefydliad hyd yn oed yn y gyrff lleiaf a archwilir gennyf.

3.23 Ar ôl i gofrestr risg gael ei sefydlu, mae'n hollbwysig bod uwch reolwyr yn ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, ei bod yn nodi risgiau newydd a'i bod yn fodd i wirio a yw'r risgiau a nodwyd wedi'u nodi yn y drefn briodol o ran y posibilrwydd y byddant yn digwydd a'r effaith bosibl ar y sefydliad. Er nad oes amserlen benodol ar gyfer adolygu risgiau, credaf fod lle i rai cyrff sydd ond yn adolygu eu risgiau ddwywaith y flwyddyn eu hadolygu'n amlach na hynny. Mae'r rhan fwyaf o gyrff a archwilir gennyf yn adolygu eu cofrestrau risgiau bob chwarter neu'n amlach a dylid annog hyn fel arfer da sy'n esiampl i eraill. Fel arfer, mae Pwyllgor Archwilio pob corff hefyd o bryd i'w gilydd yn cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol ar gyfer nodi, asesu a rheoli risg a dylid cymeradwyo hyn hefyd.

Perfformiad talu

3.24 O dan fframwaith rheoliadol nifer o gyfrifon a archwilir gennyf mae'n ofynnol datgelu canran y taliadau a wneir o fewn y cyfnod penodedig o 30 diwrnod yn y Rhagair i'r cyfrifon blyneddol. Mae'r gofyniad hwn yn deillio o Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 sy'n atgyfnerthu telerau Cod Ymarfer Talu'n Well Llywodraeth y DU. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi cyflenwyr i hawlio llog statudol oddi wrth y sector cyhoeddus os telir anfonebau dilys yn hwyr.


3.25 Yn fy adroddiad ar gyfrifon 2001-02, nodais fod nifer y cleientiaid a oedd wedi llwyddo i dalu 95% o anfonebau o fewn 30 diwrnod wedi lleihau. Dengys dadansoddiad o gyfrifon 2002-03 fod gwelliant bach iawn ers y llynedd ond nid yw'r perfformiad cystal â 2000-01. Dengys **Ffigur 7** y duedd o ran perfformiad talu anfonebau dros y tair blynedd diwethaf.

3.26 Dengys adolygiad manwl o gyfrifon archwiledig 2001-02 a 2002-03:

- bod perfformiad 10 o'r cleientiaid archwilio wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- nad oedd 2 gorff wedi gwella o gwbl;
- bod 12 o'r cyrff wedi methu â pherfformio cystal ag a wnaethant yn 2001-02, er bod 4 o'r rhain yn parhau i dalu dros 95% o anfonebau.

7 Perfformiad talu ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2000-01 - 2002-03

Dadansoddiad o nifer y cyrff sy'n talu 95% neu fwy o anfonebau o fewn 30 diwrnod



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

3.27 Dengys canlyniadau'r dadansoddiad o berfformiad o ran talu anfonebau fod llawer o gyrff wedi methu â gwneud gwelliant parhaol a sylweddol yn y maes hwn. Disgwyliaf i reolwyr y sefydliadau perthnasol roi sylw i hyn fel mater y mae angen cymryd camau pellach yn ei gylch, yn bennaf oherwydd yr effaith y gall oedi o'r fath cyn talu ei chael ar lif arian parod busnesau bach.

Gweithio gydag archwilydd eraill

Archwilio Mewnol

3.28 Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r system reolaeth ymhob sefydliad. Drwy'r gwaith hwn caiff y Swyddog Cyfrifo ei hysbysu am effeithiolrwydd fframwaith rheoli mewnol y corff. Mae'r Sicrwydd Blyneddol a roddir drwy'r swyddogaeth Archwilio Mewnol i'r Swyddog Cyfrifo hefyd yn dylanwadu ar Ddatganiad o Reolaeth Fewnol y corff y mae'n ofynnol i bob corff yn y sector Preifat a'r sector Cyhoeddus ei wneud. Wrth gynnal ei harchwiliadau ac wrth helpu i lywio'r asesiad risg, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi ystyried gwaith archwilio mewnol ac wedi ceisio sicrwydd o'r gwaith hwn lle y bo hynny'n bosibl. Mae'r ddibyniaeth, a hwylusir drwy gyswllt a chydweithredu rheolaidd, yn gwneud arbedion cost archwilio i'm cleientiaid drwy leihau'r baich archwilio cyffredinol.



3.29 Un enghraifft lle mae archwilwyr mewdol ac allanol wedi llwyddo i gydweithredu'n dda iawn yn ystod y cyfnod yw'r ymchwiliad i'r ffordd y mae'r Rhaglen Arloesedd a Datblygu a weithredir gan Gyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru wedi cael ei gweinyddu a'i monitro, yn dilyn cais gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad. Er mwyn ceisio osgoi dyblygu gwaith, ac er mwyn lleihau'r baich craffu archwilio ar swyddogion y sefydliad, cydweithiodd fy staff yn agos â swyddogaeth Archwilio Mewnol y corff ei hun a oedd eisoes wedi cynnal ei adolygiad cynhwysfawr ei hun o rai prosiectau a ariennir o fewn y Rhaglen benodol hon.

3.30 Dywedodd tîm Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wrth y tîm Archwilio Mewnol am gwmpas gwaith pellach yr oedd yn bwriadu ei wneud a'r ffordd yr oedd yn bwriadu ei wneud er mwyn cwmpasu prosiectau ychwanegol o fewn y Rhaglen Arloesedd a Datblygu. Roedd hyn yn galluogi tîm Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i ddibynnu ar y gwaith a wnaed gan y tîm Archwilio Mewnol. Yna craffodd tîm Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar feysydd eraill nad oes hawl gan staff Archwilio Mewnol i gael mynediad iddynt.

Archwilwyr eraill

3.31 O dan Adran 98(4) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 mae'n ofynnol i mi archwilio, ardystio a chyflwyno adroddiad ar gyfrifon cryno'r GIG. Paratoir y cyfrifon hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o'r prif gyfrifon sylfaenol a gyflwynir gan y pum awdurdod iechyd (y 22 bwrdd iechyd lleol o 2003-04), y Bwrdd Arferion Deintyddol a'r 15 Ymddiriedolaeth GIG. Penodir prif archwilwyr y cyfrifon hyn gan y Comisiwn Archwilio. Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan y Ddeddf, a bod yn gyson ag egwyddorion Safon 510 y Datganiad Archwilio (*The Relationship between Principal Auditors and Other Auditors*), mae fy staff wedi bwrw golwg dros waith y prif archwilwyr, wedi craffu ar eu hadroddiadau ac wedi trafod eu canfyddiadau gyda hwy.

3.32 Edrychaf ymlaen at nodi cydweithredu pellach ag Archwilwyr Mewnol ac Archwilwyr eraill fel rhan o'm hadroddiad yn 2005.

Gwasanaethau eraill a ddarperir 4

Cyflwyniad

4.1 Yn rhan dau a rhan tri o'r m Hadroddiad, nodaf y materion allweddol sy'n codi o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei gyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrrff cyhoeddus penodol eraill. Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, darparaf wasanaethau eraill i reolwyr cleientiaid a rhanddeiliaid eraill ac, yn y rhan hon o'm Hadroddiad, nodaf enghreifftiau o gyngor o'r fath a roddwyd yn ystod 2002-03

Cyngor arall i reolwyr cleientiaid


4.2 Mae rheolwyr cleientiaid yn gofyn i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am gyngor ar bob cam o'r cylch archwilio. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-03, gofynnodd nifer o sefydliadau cleientiaid am gyngor ar faterion yn ymwneud â chyfrifo, rheoleiddra a rheoli amgylchedd. Yn ogystal, gofynnir yn aml i mi ymgymryd â gwaith sy'n ychwanegol at fy nyletswyddau statudol. Mae'r paragraffau dilynol yn rhoi enghreifftiau o'r cyngor a roddwyd i reolwyr cleientiaid a'r ffordd yr wyf wedi ymateb yn gadarnhaol i'w ceisiadau am gymorth.

Rheoli ariannol ar sail adnoddau

4.3 Yn Adroddiad Cyffredinol y llynedd, nodais ddatblygiadau o ran rheoli ariannol ar sail adnoddau. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn egwyddor, i gyflwyno prosesau rheoli ariannol ar sail adnoddau o 2002-03. Cylch cynllunio cyllideb 2001, a bennodd gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru o 2002-03 i 2004-05, oedd y cyntaf yng Nghymru i'w gynnal ar sail adnoddau. Nodais, o gofio arwyddocâd y newid, ei bod yn bwysig i uwch swyddogion ystyried egwyddorion newydd cyllidebu ar sail adnoddau yn llawn a chyflwyno a rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer cyllidebu ar sail adnoddau.

4.4 Nod rheoli ariannol ar sail adnoddau yw cyfuno'r broses gofnodi a'r broses gyllidebu ar sail croniadau yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae hyn yn golygu y caiff effaith trafodion a digwyddiadau eraill nad ydynt yn gysylltiedig ag arian parod ei hadlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod cyfrifo y byddant yn digwydd ynddo, ac nid yn y cyfnod y derbynnir neu y telir arian parod. Felly mae datganiadau ariannol a gaiff eu paratoi ar sail croniadau yn rhoi cofnod cywirach o'r adnoddau a ddefnyddiwyd. Bydd uwch reolwyr yn gweld manteision eraill hefyd, pan gaiff y wybodaeth reoli ei pharatoi ar sail adnoddau. Dangosir y manteision hyn yn **Ffigur 8**.

4.5 Dangosodd canlyniadau fy ngwaith archwilio yn 2002-03 nad yw'r cyrrff sector cyhoeddus yng Nghymru wedi llwyr weithredu rheoli ariannol ar sail adnoddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi rhoi cyngor i reolwyr cleientiaid ar arferion rheoli ariannol ar sail adnoddau ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Yn ogystal, yn ystod 2004, fel rhan o'i hadolygiadau sicrwydd ychwanegol ym mhob corff a noddir gan y Cynulliad, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnal adolygiad o'r graddau y mae gwybodaeth ariannol ar sail croniadau yn cael ei defnyddio i lywio'r penderfyniadau a wneir gan reolwyr. Dylai'r gwaith hwn annog uwch swyddogion y cyrrff hyn i adolygu eu prosesau cyfredol ac ystyried a yw'r wybodaeth a baratoir ar hyn o bryd yn diwallu anghenion eu sefydliad.



Ffynhonnell: 'The Whole Truth or why Accruals Accounting Means Better Management', y Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Datblygiadau ym maes cyfrifo

- 4.6 Un agwedd bwysig ar fy ngwaith yw'r cyngor a roddaf i gyrrff archwiliedig ar gyfrifo. Yn fwyfwy, mae'r sector cyhoeddus yn gorfod llunio barn wrth benderfynu ar y driniaeth gyfrifo o incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau. Bellach mae hyn hefyd yn cynnwys y driniaeth gyfrifo o fudd-daliadau ymddeol yn unol â'r newidiadau diweddar yn y gofynion datgelu yn y maes hwn a nodir yn Safon Adroddiad Ariannol 17 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo. Fi sy'n gyfrifol am roi gyngor ar driniaethau o'r fath ac am ddod i gasgliad ynglŷn â phriodoldeb y farn gyfrifo a gaiff ei llunio gan y cyrrff dan sylw.

Datblygiadau mewn systemau

- 4.7 Mae systemau cyfrifiadurol yn rhan annatod o'r systemau rheolaeth fewnol a chofnodi a ddefnyddir gan bob cleient. Yn sgîl newidiadau i ofynion cofnodi a/neu wybodaeth, yn aml, mae angen systemau ariannol newydd.
- 4.8 Pryd bynnag y bydd un o'm cleientiaid yn rhoi system ariannol newydd ar waith, bydd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnal adolygiad o'r broses hon, gan sicrhau'n arbennig gywirdeb y data a drosglwyddir rhwng yr hen system a'r system newydd. Os cyfyd materion pwysig yna gallaf ddewis cyflwyno adroddiad ar gyfrifon y corff (cyfeiria paragraff 2.22 at adroddiad o'r fath a gyhoeddais ar y Cyngor Cenedlaethol). Os cyfyd materion llai

pwysig, yna bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyflwyno adroddiad arnynt i uwch reolwyr y cleient. Yn y naill achos neu'r llall, gall y cleient wedyn gymryd camau unioni priodol ar unwaith.

4.9 Yn ystod 2002-03 cynhaliodd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru adolygiad o'r ffordd yr oedd cleient o'r fath wedi rhoi system ariannol newydd ar waith. Fel rhan o'n hadolygiad o'r system newydd archwiliwyd camau allweddol o'r prosiect. Mae rheoli prosiect yn effeithiol yn allweddol o ran cyflwyno newidiadau, y gallu i reoli'r defnydd o adnoddau mewn ffordd reoladwy, y gallu i reoli parhad busnes a chyflawni'r amcanion a bennir. Yn unol ag arfer da, defnyddiodd y cleient brosesau i reoli a gweithredu'r prosiect. Goruchwyliwyd y prosiect gan Fwrdd Prosiect, o dan gadeiryddiaeth uwch swyddog priodol.

4.10 Er ein bod yn fodlon bod y system yn gallu cynnig manteision sylweddol o ran rheoli ariannol a chofnodi gwybodaeth, nodwyd nifer o faterion gennym. Mae'r rhain yn berthnasol, nid yn unig i'r cleient penodol hwn ond hefyd yn fwy cyffredinol i unrhyw brosiect newydd a ddechreuir gan gleientiaid ac maent yn cynnwys:

- **Gweithredu:** Gall gweithredu fesul cam arwain at anfodlonrwydd weithiau lle na cheir y manteision disgwylledig yn gynnar. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy godi ymwybyddiaeth o'r cynnydd a wneir ac o gynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol;
- **Hyfforddi:** Mae'n bwysig rhoi rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar waith ar gyfer pob rhanddeiliad perthnasol. Dylai hyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl yn sgîl y newid;
- **Asesu risgiau:** Dylai rheoli prosiect gynnwys asesiad o'r risgiau i'r prosiect. Mae'n bwysig bod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn a bod y cyfrifoldeb dros gamau gweithredu yn cael ei roi i unigolion gyda therfynau amser y cytunwyd arnynt; a

- **Newidiadau pellach:** Lle y bwriedir gwneud newidiadau sylweddol pellach, mae'n bwysig bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd rheoli cyffredinol yn datblygu ar yr un pryd. Gallai staff archwilio mewnol gynnal yr adolygiadau hyn.

Cyngor arall i randdeiliaid

Gohebiaeth yr ymdriniwyd â hi yn 2002-03

4.11 Mae fy ngwaith o ran gohebiaeth ac ymholiadau eraill oddi wrth Aelodau'r Cynulliad, aelodau'r cyhoedd, busnesau a swyddogion yn parhau i gynyddu. Bu'r cynnydd hwn yn amlwg iawn o ran gohebiaeth oddi wrth y cyhoedd, sydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth o'm rôl fel corff gwarchod annibynnol gwariant cyhoeddus Nghymru.

4.12 Yn ystod 2002-03, cefais 95 o llythyrau oddi wrth Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a'r cyhoedd, gyda llawer ohonynt yn gofyn am archwiliad llawn gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ymateb sylweddol. Mae'n gynnydd o 76 y cant o gymharu â nifer y llythyrau a gefais yn y deuddeg mis blaenorol. Ymhlith y materion a godwyd gyda mi yn ystod 2002-03 roedd pryderon ynglŷn â'r canlynol:

- rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant y Cynulliad neu'r cyrff cyhoeddus a noddur ganddo;
- methiannau honedig i sicrhau gwerth da am arian wrth waredu asedau cyhoeddus;
- achosion o reoli gwael neu ddefnyddio arian cyhoeddus yn wael a arweiniodd at oedi neu ddiffygion wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

4.13 Ystyriaf fod ymdrin â gohebiaeth o'r fath yn agwedd bwysig ar fy ngwaith ac mae'n bwysig bod pobl Cymru yn gwybod bod pob pryder a godwyd gyda mi yn cael ei gymryd o ddifrif, bod ymchwilliad llawn a gwrthrychol iddo ac y rhoddir ymateb prydlon.

- 4.14 Yn 2002-03 yn sgîl pryderon a godwyd gan ohebwyd ynglŷn â'r ffordd yr oedd GIG Cymru wedi gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru yn Nhalgarth, cynhelais adolygiad o'r materion a godwyd. Cyhoeddais adroddiad o'm canfyddiadau ac wedyn rhoddais ragor o wybodaeth am agweddau ar y broses waredu i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol mewn memorandwm. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyfarwyddwr GIG Cymru, swyddogion eraill yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddogion Atebol cyrff y GIG a oedd yn ymwneud â'r broses werthu cyn cyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Ionawr 2004 a argymhellodd newidiadau i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gwaredu eiddo GIG Cymru yn y dyfodol.
- 4.15 Rwyf hefyd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998. Mae'r Ddeddf hon yn diogelu cyflogeion sy'n dymuno datgelu camarfer honedig yn y gweithle sy'n fgythiad i fudd y cyhoedd. Roedd peth o'r ohebiaeth a anfonwyd ataf wedi'i hanfon gan unigolion (datgelwyr camarfer) a oedd am ddatgelu camarfer o dan y Ddeddf.

Cyngor arall

- 4.16 Ym mis Tachwedd 2003, cynhaliodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ei drydedd gynhadledd flynyddol yng Nghymru. Roedd yn bleser gennyf dderbyn gwahoddiad i agor ail ddiwrnod y gynhadledd. Thema'r dydd oedd 'Progress, partnership and improvement'. Yn fy araith i'r cynadleddwyr rhoddais fanylion am y newidiadau i'r gyfundrefn archwilio yng Nghymru. Roedd staff o Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yn gyfrifol am reoli gweithdy er mwyn i'r cynadleddwyr ymchwilio i'r thema hon yn fanylach.

Casgliad

- 4.17 Croesawaf y cyfle i roi cyngor proffesiynol a chanllawiau i sector llywodraeth ganolog Cymru a rhanddeiliaid eraill ac i ymateb i ohebiaeth. Byddaf yn parhau i weithio gyda rheolwyr cleientiaid a rhanddeiliaid eraill gyda'r nod o barhau i gyfrannu at y broses o wella safonau rheoli ariannol ar draws sector llywodraeth ganolog Cymru.

Caffael 5

Cyflwyniad

5.1 Yn y bennod hon cyflwynaf adroddiad ar:

- ganlyniadau fy adolygiad o ddigonolrwydd gweithdrefnau caffael Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad;
- gwaith Tim Menter Gaffael Cymru, a sefydlwyd ac a ariannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r ffordd y mae ei waith yn chwarae rhan allweddol yn y broses o wella safonau caffael yn y Cynulliad a'r Cyrff a Noddir ganddo.

Adolygiad o Weithdrefnau Caffael

5.2 Yn fy Adroddiad Cyffredinol yn 2003, ymrwymais i gynnal adolygiad o ddigonolrwydd y gweithdrefnau caffael sydd ar waith yn y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel rhan o'm gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod.


5.3 Canolbwyntiodd y gwaith archwilio a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar fy rhan ar ddau faes cysylltiedig:

- Asesu effeithiolrwydd a digonolrwydd yr amgylchedd rheoli cyffredinol ar gyfer caffael; a
- Cynnal profion ar sampl fach o ymarferion tendro contract i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a gweithdrefnau sefydledig.

5.4 Roedd y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnwys:

- Canfod natur gynhenid a graddau risgiau ym maes caffael yn gysylltiedig â busnes y corff, natur y gweithgareddau a'r mathau o nwyddau a gwasanaeth y mae'n eu prynu.
- Asesu a yw polisiau ysgrifenedig a chanllawiau ar y broses gaffael yn bodoli a pha mor ddigonol ydynt.
- Ar gyfer y profion ar samplau: sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau tendro sefydledig; archwilio dogfennaeth i ategu'r broses o werthuso tendrau i sicrhau ei bod yn ddigonol, yn ddibynadwy a bod staff yn cadw ati; sicrhau bod y contract yn cael ei fonitro'n ddigonol, a chadarnhau bod taliadau cynnydd yn cael eu gwirio yn erbyn telerau ac amodau contractau.

5.5 O ganlyniad i'm hadolygiad, codais 33 o arsylwadau ac argymhellion i gyd ar gyfer gwella ym maes caffael mewn cyrff archwiliedig. Crynhoir y canfyddiadau yn **Ffigur 9** isod.



- diffygion mewn canllawiau neu weithdrefnau
- dogfennaeth anghyflawn i ategu penderfyniadau rheolwyr
- methiant i geisio, cael neu gadw cymeradwyaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- achosion o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau contractio a thendro

Ffynhonnell: Dadanaoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

5.6 Yn gyffredinol, cefais fod safonau rheolaethau a weithredwyd gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru dros brynu yn ystod y flwyddyn gyfrif 2002-03 yn dda. Fodd bynnag mae canlyniadau fy ngwaith archwilio ariannol yn awgrymu bod lle o hyd i wella'r ffordd y caiff rheolaethau caffael eu gweithredu yn y cyrff a archwilir gennyf. Wrth roi gwelliannau i weithdrefnau yn y maes hwn ar waith, gall y cyrff hynny hefyd gael cyngor a chanllawiau ar arfer gorau oddi wrth sefydliadau megis Tîm Menter Gaffael Cymru a Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Disgrifiad isod i ba raddau y mae'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo yng Nghymru yn defnyddio sefydliadau o'r fath ar hyn o bryd.

Tîm Menter Gaffael Cymru

5.7 Crëwyd Tîm Menter Gaffael Cymru (y Tîm) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2001 i weithredu ar argymhellion adolygiad 'Gwerth Gorau Cymru' o gaffael yn y sector cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2001. Ei nod yw gweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ysgogi sefydliadau i gael gwell gwerth am arian o'u gweithgareddau caffael. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno ar gyllid ar gyfer y Tîm tan fis Mawrth 2005 ac mae ei lwyddiant yn cael ei fesur yn ôl faint o arbedion y gall eu nodi yn y sector cyhoeddus. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03, nododd £7.2 miliwn o arbedion yn erbyn targed o £6 miliwn ar gyfer y 12 mis cyntaf.

5.8 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cadw mewn cysylltiad agos â gwaith y Tîm. Penderfynir ar feysydd i'w hadolygu sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall, gan ystyried yr hyn sydd o ddiddordeb i'r ddau barti, a thrwy hynny gellir osgoi dyblygu gwaith. Drwy gydgyssylltu'n rheolaidd â'r Tîm drwy gydol y flwyddyn, caiff fy staff wybod am y gwaith sydd ar y gweill gyda chleientiaid archwilio. Mae'r wybodaeth hon o gymorth i dimau archwilio o ran eu hasesiad o risgiau cleientiaid a wneir fel rhan o'r broses cynllunio archwiliadau. Lle bynnag y bo modd, mae'r staff archwilio hefyd yn defnyddio canfyddiadau'r Tîm i leihau'r baich archwilio ar y Cynulliad a'r Cyrff a Noddir ganddo.

5.9 Mae tri maes gwaith ar y gweill ar hyn o bryd gan y Tîm y gellir tyngu sylw atynt fel a ganlyn:

- **Adolygiadau Porth** sy'n golygu ymgymryd â phroses Sicrwydd Ansawdd ar brosiectau gwariant cyfalaf gwerthfawr, cymhleth neu arloesol. Mae adolygiad o'r fath wedi cael ei drefnu mewn un o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad yn ystod 2003-04.
- **Templedi Strategaeth Gaffael** i helpu sefydliadau i roi strategaeth gaffael effeithiol ar waith. Mae un o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad yn treialu'r ddogfen hon a luniwyd gyda mewnbwn gan Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru a phartion hyddysg eraill.
- **Gwiriadau Ffitrwydd Caffael** sydd â'r nod o helpu sefydliadau i adnabod eu cryfderau yn y maes hwn yn ogystal â nodi meysydd i'w gwella. Mae'r rhain wrthi'n cael eu cynnal mewn tri o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad. Bydd cyfres arall o'r gwiriadau hyn yn cael ei chynnal yn ystod 2004 mewn cyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad.

Cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cymryd rhan ym mentrau'r Tîm

5.10 Mae gweithgareddau'r Tîm yn eang eu cwmpas; yn cynnig cyrsiau hyfforddi, sefydlu gwefannau sy'n hysbysebu cyfleoedd i gael contractau; annog y defnydd o gerdyn caffael i Gymru a sefydlu cronfa ddata sy'n cofnodi gwariant yn ôl cyflenwr a math o gynnyrch. O'm gwaith archwilio yn 2002-03 cefais wybod fod:

- o leiaf wyth cleient archwilio wedi cymryd rhan ym mentrau'r Tîm;
- chwech o'r cyrff hyn wedi mynychu cyrsiau hyfforddi neu seminarau; a
- chwe chorff hefyd yn gwneud defnydd o Ganllawiau Arfer Gorau'r Tîm.

5.11 Cefais wybod hefyd fod nifer o gyrff archwiliedig wedi gwneud arbedion ar ôl cymryd rhan yng **nghyd-drefniadau caffael** y Tîm lle mae sefydliadau'n gweithredu mewn consortiwm i sicrhau gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Tîm wrthi'n negodi i ymestyn trefniadau o'r fath sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer caffael ym maes telathrebu i nwyddau a gwasanaethau eraill a brynir gan bob sefydliad megis llogi ceir, trydan, offer TG, defnyddio gwasanaeth dosbarthu uniongyrchol a chyflogi staff asiantaeth.

Swyddfa Masnach y Llywodraeth

5.12 Mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn gyfrifol am raglen eang ei chwmpas, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau caffael llywodraeth ganolog yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae nifer o gleientiaid archwilio wedi dweud wrth fy staff eu bod yn defnyddio gwasanaethau Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar hyn o bryd, yn enwedig ei threfniadau i helpu i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian wrth brynu offer TG.

Casgliad

5.13 Mae gweithdrefnau caffael cadarn a sefydledig y cydymffurfir â hwy yn gyson yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael y gwerth gorau posibl am arian o ran ei warant ar gaffael. Disgwyliaf i'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennyf barhau i fod yn wyliadwrus wrth sicrhau bod eu prosesau caffael o safon ddigon da i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a bennwyd.

5.14 O ran gwerth am arian yn fwy cyffredinol, croesawaf y gwaith a wneir yng Nghymru gan Dîm Menter Gaffael Cymru. Mae'r tîm hwn, a chyrff cyngori eraill megis Swyddfa Masnach y Llywodraeth, yn cynnig cyfleoedd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gael gafael ar arbenigedd ym maes caffael, arddel arfer gorau a chael y gwerth gorau posibl am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau o gyllid cyhoeddus. Bydd fy staff hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â Thîm Menter Gaffael Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod i fonitro mentrau yn y dyfodol a chyfnewid gwybodaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

6

Cyflwyniad


6.1 Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, esbonais ofynion cyflwyno adroddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â chau rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer 1994-1999. Yn y rhan hon o'r adroddiad crynhoaf ganfyddiadau'r archwiliad annibynnol o'r broses gau hon gan Bennaeth Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac arsylwadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sy'n codi o'i harchwiliadau o geisiadau am wariant grant Ewropeaidd.

Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru

- 6.2 Nod y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd drwy roi cymorth grant i ariannu prosiectau a gymeradwywyd o dan raglenni wedi'u targedu y cytunwyd arnynt rhwng y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn) ac Aelod-Wladwriaethau.
- 6.3 Dosberthir arian o dan bedair Cronfa Strwythurol, a ddangosir yn **Ffigur 10**. Gall sefydliadau¹ sydd â phrosiectau sy'n bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn ar gyfer rhaglenni unigol wneud cais am gymorth grant tuag at gyfanswm costau eu prosiect. Mae lefel y

10

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd



Ffynhonnell: Canllawiau'r CE

¹ Gall sefydliadau gynnwys cwmnïau cyhoeddus a phreifat, cyrff cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

grant a ddyfernir yn amrywio, ond fel arfer dyfernir tua 50 y cant o gyfanswm y gost amcangyfrifedig. Rhaid i'r gweddill, a elwir yn arian cyfatebol, gael ei godi gan y sefydliad sy'n noddi'r prosiect.

- 6.4 Darperir arian o'r Cronfeydd Strwythurol am gyfnodau penodol, a elwir yn 'gyfnodau rhaglennu'. Dechreuodd y cyfnod rhaglennu cyfredol ar 1 Ionawr 2000 a bydd yn para tan 31 Rhagfyr 2006. Roedd y rhaglen flaenorol (y cyfeirir ati fel yr 'hen' gyfnod rhaglennu) wedi para o 1 Ionawr 1994 i 31 Rhagfyr 1999.
- 6.5 Yn y cyfnod rhaglennu cyfredol, darperir arian o gronfeydd o dan yr amcanion a ddisgrifir yn **Ffigur 11**. Dangosir y rhanbarthau yng Nghymru lle mae'r amcanion hyn yn gweithredu yn **Ffigur 12**.
- 6.6 Yn ogystal â'r Rhaglenni Amcan, mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn rhoi cymorth grant i Fentrau Cymunedol Illai. Ar gyfer y cyfnod rhaglennu cyfredol, mae pedair Menter Gymunedol yn gweithredu yng Nghymru, sef INTERREG IIIa, EQUAL, URBAN II a LEADER+. Y term a ddefnyddir i ddisgrifio arian a ddyfernir o dan yr Amcanion a'r Mentrau Cymunedol yw 'rhaglenni Ewropeaidd' (neu Raglenni).

Rheoli'r Rhaglenni

- 6.7 Yn ôl gofynion yr Undeb Ewropeaidd mae'n rhaid i o leiaf un corff ymhob rhanbarth sy'n cael grantiau fod yn atebol am dasgau rheoli allweddol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglenni:
- Mae'r **Awdurdod Rheoli** yn gyfrifol am reoli a gweithredu rhaglenni'n effeithlon ac yn gywir;
 - Mae'r **Awdurdod Talu** yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno ceisiadau am daliadau ardystiedig ac am dderbyn taliadau oddi wrth y Comisiwn.
- 6.8 Gall yr un sefydliad ymgymryd â'r ddwy rôl ond, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, rhaid i'r swyddogaethau gael eu gwahanu'n ddigonol o fewn y corff dan sylw. Yng Nghymru, i ddechrau dirprwywyd y rolau hyn i un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Fodd bynnag, ar 23 Gorffennaf 2003, dilëwyd ei statws fel asiantaeth ar wahân a pharhaodd i arfer ei swyddogaethau a'i chyfrifoldebau fel rhan o Adran Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.


11 Rhaglenni Amcan

Amcan	Cronfeydd sydd ar gael	Nod yr Amcanion ar gyfer Cyfnod Rhaglennu 2000-06
1	ERDF ESF EAGGF FIFG	Cynorthwyo datblygiad ac addasiad strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad economaidd ar ei hôl hi o'u cymharu â gweddill yr UE, yn gyffredinol y rhanbarthau y mae eu CMC y pen yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE
2	ERDF	Cynorthwyo yn y broses o weddnewid yn economaidd ac yn gymdeithasol yr ardaloeddardaloedd hynny sy'n wynebu anawsterau strwythurol
3	ESF	Cynorthwyo yn y broses o addasu a moderneiddio polisiau a systemau cenedlaethol ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Canollbwyntir ar grwpiau cymdeithasol difreintiedig yn hytrach na rhanbarthau

Ffynhonnell: Canllawiau'r CE

12

Ardaloedd y Rhaglen Crronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Prif ffrwd 2000-2006



- Ardal Amcan 1
- Ffin Amcan 3
- Ardaloedd Amcan 2
- Transitional objective 2 Areas
- Transitional Objective 5b Areas
- Ffin Ardal Etholiadol

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6.9 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod partneriaeth yn gydsyniad allweddol wrth weithredu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae partneriaid yn cynnwys y rhai sydd â buddiant amlwg yn y broses o gyflwyno rhaglenni a'r canlyniad ac yn eu plith mae busnesau, undebau llafur, cyrff gwirfoddol, grwpiau amgylcheddol a chydraddoldeb a chyrrff yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau terfynol ar gymeradwyo arian ac am reoli'r taliadau, monitro'r Rhaglenni a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Cau'r Hen Raglenni (1994-1999)

Y broses gau a'r amserlen

6.10 Yn ystod yr hen gyfnod rhaglennu, cafodd Cymru arian yn uniongyrchol o'r Comisiwn mewn perthynas â 10 rhaglen wahanol. Fe'u gweinyddwyd gan WEFO (a'r corff a'i rhagflaenodd sef Gweithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd Cymru Cyf).

6.11 Cafwyd arian o'r Cronfeydd Strwythurol hefyd yng Nghymru ar gyfer wyth rhaglen a gefnogwyd fel rhan o fentrau i'r DU gyfan. Fe'u gweinyddwyd gan adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys yr Adran Fasnach a Diwydiant ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

6.12 Mae **Ffigur 13** yn rhoi ystadegau o wariant cymwys a chyfraniad y Comisiwn ar gyfer y 18 o raglenni a gefnogir yng Nghymru yn ystod yr hen gyfnod rhaglennu.

6.13 Fel rhan o'r broses o gau'r rhaglenni hyn, roedd yn ofynnol i WEFO ac Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu unrhyw symiau o grant a oedd yn weddill ar brosiectau cymeradwy a pharatoi dogfennaeth gau ar yr hen raglenni erbyn dyddiad terfynol a osodwyd gan y Comisiwn sef 31 Mawrth 2003. O dan Reoliad (EC) 1260/99 cafodd y Comisiwn y pŵer awtomatig i 'ddadneilltuo' (hynny yw tynnu yn ôl) unrhyw grant sy'n weddill os na chwblhawyd y broses gau erbyn y dyddiad terfynol hwn.

13 Ystadegau ar gyfer cau rhaglenni fesul rhaglen

Rhaglen 1994-99	Gwariant Prosiect Cymwys £	Cyfraniad Ariannol y CE i'r Prosiect £	Nifer y Prosiectau
Prosiectau a weinyddwyd gan Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru Roedd y rhain o dan y cynllun Prosesu a Marchnata Grantiau a phrosiectau ffermio dw'r (a ariannwyd gan FIFG), y cynllun Prosesu a Marchnata Grantiau (a ariannwyd gan EAGGF), y cynllun Grantiau Fferm a Chadwraeth (a ariannwyd gan EAGGF) a Lwfansau lawndal Da Byw Tir Uchel (a ariannwyd gan EAGGF).	219,675,838	42,335,017	17,311
Prosiectau a weinyddwyd gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru - (a Gweithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd Cymru Cyf - WEPE gynt) Mae prosiectau yn cynnwys ISW 1997-99, Interreg II, Rechar II, Resider II, SME ac Urban (a ariannwyd gan ERDF), Rural Wales a Rural Wales II (a ariannwyd gan EAGGF ac ERDF).	595,018,784	226,159,475	1,737
Prosiectau a gefnogir fel rhan o fentrau i'r DU gyfan Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau a gynhaliwyd ar y cyd â'r Adran Fasnach a Diwydiant (Konver II, Retex II a Pesca II) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Pesca II).	6,528,818	2,732,042	55
Cyfansymiau	821,223,440	271,226,534	19,103

Ffynhonnell: Dadanaoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- 6.14 Pennodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddyddiad terfynol mewnol cynharach, sef 31 Rhagfyr 2002, ar gyfer cyflwyno dogfennaeth gau mewn perthynas â'r wyth rhaglen a weinyddwyd gan adrannau eraill y Llywodraeth er mwyn sicrhau eu bod hwy yn eu tro yn cael digon o amser i gwblhau eu cyflwyniadau erbyn dyddiad terfynol y Comisiwn, sef 31 Mawrth 2003.
- 6.15 Roedd y ddogfennaeth gau angenrheidiol yn cynnwys Datganiad Cyffredinol o Wariant a chais i'r Comisiwn ryddhau'r swm terfynol o'r grant a oedd yn weddill ac yn ddyledus i bob rhaglen. Roedd hefyd yn cynnwys gofyniad i baratoi datganiadau cau ar raglenni unigol.

Datganiadau cau

- 6.16 O dan reoliadau'r Comisiwn dylai'r datganiadau cau fod wedi'u paratoi gan gorff archwilio annibynnol ac roedd yn


ofynnol iddynt roi casgliad cyffredinol ynglŷn â **chywirdeb y data ariannol** a gyflwynwyd i'r Comisiwn a rhoi casgliad cyffredinol ar y ffordd yr oedd y corff gweinyddu wedi **rheoli'r rhaglenni**. Cytunodd y Comisiwn y dylai datganiadau cau rhaglenni, yng Nghymru, gael eu paratoi gan Bennaeth Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd trefniant tebyg ar waith mewn adrannau eraill o Lywodraeth y DU.

- 6.17 Paratôdd Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatganiadau mewn perthynas â phob un o'r 18 o raglenni a oedd wedi gweithredu yng Nghymru. Cyflwynwyd y datganiadau cau a baratowyd mewn perthynas â rhaglenni i'r DU gyfan i adrannau perthnasol y Llywodraeth. Cyflwynwyd pob datganiad cau arall yn uniongyrchol i'r Comisiwn.

- 6.18 Dangosir cynnwys y datganiadau cau yn **Ffigur 14**.

14

Cynnwys y datganiadau cau



Canlyniadau

- 6.19 Adneuwyd yr holl ddogfennaeth gau yr oedd yn rhaid ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r Comisiwn ar 31 Mawrth 2003, ac felly fe'i cyflwynwyd erbyn dyddiad terfynol y Comisiwn. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ddatganiadau i adrannau perthnasol y Llywodraeth ym mis Mawrth 2003, yn hwyrach na'r dyddiad targed, sef 31 Rhagfyr 2002.
- 6.20 Rhoddodd Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru farn archwilio amodol ar 17 o'r 18 o adroddiadau cau. Ni allai'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn ar un o'r datganiadau cau a baratowyd gan

Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariwyd bron £4 miliwn ar y rhaglen hon. Rhoddwyd nifer o esboniadau i ategu'r penderfyniad hwn, gan gynnwys methiant yr Adran i gyflwyno cais terfynol mewn pryd er mwyn iddo gael ei wirio a'i gymeradwyo gan archwilwyr. Ar gyfer pob rhaglen, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad sylweddol ar ei arsylwadau a dangosir enghreifftiau o'i ganfyddiadau allweddol yn **Ffigur 15**.

- 6.21 Yn y paragraffau dilynol, nodaf nifer o themâu a godwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiadau sylweddol.

15

Enghreifftiau o ganfyddiadau allweddol yn adroddiadau Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru



- Gweinyddu ymweliadau rheoli
- Pryderon a godwyd mewn adroddiadau ar ymweliadau rheoli
- Cydymfurfio â Rheoliadau Ewropeaidd
- Paratoi Datganiadau

Diffyg dogfennaeth

- 6.22 Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod diffyg dogfennaeth yn gyffredinol i ategu'r gwariant yr aethpwyd iddo ar y rhaglenni. Er enghraifft, nid oedd y prif lyfrau cyfrifon a ddefnyddiwyd i gofnodi trafodion ar gyfer y cyfnodau cyn 1 Ebrill 1996 ar gael i'r archwilwyr am eu bod wedi cael eu dinistrio, yn unol â pholisi cadw cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Amseroldeb ac ansawdd ymweliadau rheoli

- 6.23 Mae Rheoliad (EC) Rhif 2064/97 y Comisiwn, a gyhoeddwyd yn ystod hydref 1997, yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau gynnal sampl o ymweliadau rheoli â chyrrff sy'n cael grantiau i gadarnhau bod arian y Comisiwn wedi cael ei wario'n gywir. Mae'n nodi y dylai ymweliadau rheoli ymestyn dros y cyfnod rhaglennu a dylent gwmpasu'r ystod o weithgaredd a chyfrif am o leiaf 5 y cant o gyfanswm y gwariant cymwys.

- 6.24 Er i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gasglu bod y gofyniad bod y sampl o ymweliadau rheoli yn cwmpasu pob rhaglen wedi'i fodloni, nododd nifer o bryderon o ran sut yr oedd WEFO wedi gweinyddu'r broses hon:

- **Oedi cyn cynnal ymweliadau:** ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau o dan y Swyddfa Gymreig a dim ond ar ôl creu WEFO y dechreuwyd cynnal ymweliadau. Cynhaliwyd yr ymweliadau cyntaf yn ystod hydref 2000, ryw dair blynedd ar ôl i'r Rheoliad gael ei gyhoeddi;
- **Risg:** yn ei adroddiad archwilio cryno ar gyfer cau'r Rhaglenni, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod "y fethodoleg samplu yn or-symf ac wedi methu â chynnal dadansoddiad systematig o risg". Cadarnhaodd fod hynny wedi digwydd er gwaethaf arsylwad archwilwyr y Comisiwn - ar ôl cwblhau eu hadolygiad o gydymffurfiaeth Cymru â Rheoliad 2064/97 ryw ddwy flynedd cyn hynny - "wrth ddewis prosiectau dylid rhoi mwy o ystyriaeth i risg yng ngoleuni profiadau o waith cynharach";
- **Amseroldeb:** nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol ganfyddiadau hefyd ar amseroldeb yr adroddiadau ar ôl cynnal ymweliadau rheoli a chynnwys

yr adroddiadau. Ar gyfer 25 o'r 56 o ymweliadau rheoli a gynhaliwyd ar gyfer wyth rhaglen yr oedd WEFO yn gyfrifol amdanynt, cymerodd dros 300 diwrnod ar gyfartaledd i baratoi'r adroddiad cysylltiedig;

- **Diffyg gwaith dilynol:** Yn yr adroddiadau naratif a gyflwynwyd gyda datganiadau cau pedair o'r rhaglenni, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol nad oedd y tîm rheoli wedi gwneud gwaith dilynol lle nodwyd pryderon mawr yn ystod yr ymweliadau monitro.

Ymateb y Comisiwn i'r ddogfennaeth gau

- 6.25 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi hysbysu swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o fwriad y Comisiwn i gynnal ei adolygiad ei hun er mwyn archwilio ansawdd yr archwiliadau cau. Dechreuodd yr archwiliad hwnnw ym mis Ebrill 2004 a disgwyliar y canlyniadau erbyn mis Medi. Mae hefyd wedi nodi y bydd y Comisiwn yn debygol o ofyn i swyddogion wneud rhagor o waith mewn perthynas â phob barn archwilio amodol cyn i'r rhaglenni gael eu cau a chyn i'r rhandaliadau olaf gael eu talu. Yn ei adroddiad archwilio cryno ar gyfer cau'r Rhaglenni, daw'r Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad y bydd hyn fwy na thebyg yn arwain at yr angen am waith dilysu pellach ac y "gallai arwain hefyd at golled ariannol" i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n hysbys eto faint fydd y golled ariannol bosibl. Byddaf yn adolygu'n fanwl y datblygiadau yn y maes hwn a byddaf yn cyflwyno adroddiad, os bydd angen, yn fy Adroddiad Cyffredinol nesaf.

Archwilio ceisiadau a wnaed mewn perthynas â'r Rhaglenni Ewropeaidd newydd

Y gofyniad am archwiliadau

- 6.26 Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cael arian Ewropeaidd gyflwyno tystysgrifau archwilio² i Lywodraeth Cynulliad Cymru (WEFO gynt) i ategu eu ceisiadau blynyddol am grant. Ar ddiwedd pob prosiect, rhaid hefyd gyflwyno tystysgrif archwilio derfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn i randaliad olaf y grant gael ei dalu.

² Caiff grantiau a ddyferir o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) am lai na £20,000 eu heithrio o'r gofyniad hwn.

6.27 Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cael grantiau benodi cyfrifydd annibynnol i archwilio eu ceisiadau blynyddol a'u ceisiadau terfynol. Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio'r cymwysterau sydd eu hangen ar unigolyn o'r fath. Rwyf o dan gontract i archwilio ceisiadau gan saith corff yr wyf yn archwiliwr allanol arnynt hefyd. Wrth archwilio ceisiadau blynyddol a cheisiadau terfynol prosiectau am grantiau Ewropeaidd, mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r cyfarwyddiadau archwilio a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â'r safonau archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Canlyniadau'r archwiliadau

6.28 Yn y naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2003, rhoddodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 31 o dystysgrifau archwilio i gyd, sef cynnydd o'r 23 o dystysgrifau a roddwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003.

6.29 Rhoddwyd barn amodol ar bob un o'r tystysgrifau hyn ond un ac ar gyfartaledd rhoddwyd pum arsylwad archwilio ar bob un. Yn **Ffigur 16**, rhoddaf enghreifftiau o'r rhesymau dros roi barn archwilio amodol.

Dogfennaeth a ddarparwyd i ategu'r cais

6.30 Mae rheoliadau'r Comisiwn yn nodi'r gofynion i'r rhai sy'n cael Arian Ewropeaidd o ran dogfennaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i'r rhai sy'n cael arian gadw tystiolaeth am bob elfen ariannol o'r prosiect, a rhoddodd WEFO ganllawiau i ymgeiswyr i esbonio'r gofyniad hwn. Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, nodais fod dros hanner yr arsylwadau a wnaed yn yr adroddiadau a gyflwynwyd gyda cheisiadau archwiliedig ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003 yn ymwneud â'r ffaith nad oedd digon o ddogfennaeth yn cael ei chadw i ategu ceisiadau. O ran y tystysgrifau archwilio a roddwyd yn y naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2003, nododd yr archwiliwr fod gwelliant yn y maes hwn nes bod cyfran yr arsylwadau yn ymwneud â diffyg dogfennaeth wedi gostwng i oddeutu un o bob pum argymhelliad a wnaed.

Cydymffurfio â Rheoliadau Ewropeaidd

6.31 Gall Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac arian cyfatebol dalu am yr holl gostau sy'n ymwneud â gweithgaredd prosiect ar yr amod bod y costau yn gymwys. Un o'r egwyddorion cyffredinol yw bod yn rhaid i bob cost fod yn gost wirioneddol, yn hytrach nag amcangyfrif, tâl tybiannol neu gost a gyllidebwyd. Mae bron 20 y cant o'r canfyddiadau a nodwyd yn ymwneud â'r ffaith bod rhai o'r sefydliadau sydd wedi cael grant wedi dosrannu costau, megis costau staff, rhent neu orbenion, i brosiectau ar sail tybiannol yn hytrach nag ar sail wirioneddol.

Cyfyngiad ar fy marn archwilio

6.32 O dan Reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol, dim ond er mwyn cael gwerth ychwanegol y gellir rhoi cymorth grant, hynny yw, rhaid i arian arwain at ganlyniadau ychwanegol, mesuradwy a chadarnhaol na fyddent wedi'u sicrhau heb gymorth o'r Cronfeydd Strwythurol. Gyda chytundeb Cynulliad Genedlaethol Cymru, nid yw'r archwiliadau a wneir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn asesu a yw'r prosiectau wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer gwerth ychwanegol.


6.33 Nodwyd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd gyda chwe thystysgrif archwilio nad oedd yr archwiliad yn cadarnhau allbynnau. Mae hyn yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ynglŷn â grantiau sy'n nodi nad yw'n ofynnol archwilio allbynnau mewn perthynas â grantiau a ddyfarnwyd o dan ERDF a EAGGF.

Effaith

6.34 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hysbysu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i £230,413 o gyllid i sefydliadau sydd wedi cael grantiau gael ei atal o ganlyniad i'r gwaith archwilio a wnaed.

16

Enghreifftiau o'r rhesymau dros roi barn amodol ar dystysgrifau archwilio ar gyfer prosiectau a ariennir drwy arian Ewropeaidd



■ Dogfennaeth a ddarparwyd i ategu'r cais

■ Cydymffurfio â Rheoliadau Ewropeaidd

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

Casgliadau

6.35 Bu'r flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2003 yn llawn heriau i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o weithredu ac archwilio prosiectau Ewropeaidd ac mae'n bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu:

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad ei hun yn ei ddatganiadau cau ar gyfer yr hen raglenni ac sy'n deillio o'm harchwiliad o geisiadau am grant o dan y rhaglenni newydd. Er enghraifft, erys materion yn ymwneud ag ansawdd

dogfennaeth i ategu gwariant yn yr hen raglenni yn broblem hefyd yn y rhaglenni newydd;

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau y gweithredir ar unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn a'i archwiliwyr yn amserol.

6.36 Bydd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda noddwyr prosiectau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i roi cymorth ac arweiniad i'r cyrff yr wyf yn archwiliwr penodedig iddynt.

7 Edrych i'r Dyfodol

Cyflwyniad

- 7.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad, edrychaf y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2002-03 ac ystyriaf y newidiadau posibl i gwmpas fy ngwaith yn 2003-04 a thu hwnt.

Cleientiaid newydd: 2003-04 a thu hwnt

Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

- 7.2 Mae 'Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus' yn deitl anstatudol ar gyfer deiliad swyddi gwahanol Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru. Drwy uno'r tair swydd hyn y nod yw rhoi llwybr clir ac uniongyrchol i aelodau'r cyhoedd sydd am gwyno am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus ond nad ydynt yn siŵr pa Ombwdsmon y dylent gwyno iddo. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu gwasanaeth unedig yng Nghymru ac mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn anelu at sicrhau hynny ar hyn o bryd.

Comisiwn Iechyd Cymru

- 7.3 Sefydlwyd Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) - sef un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru - ar 1 Ebrill 2003. Mae'n darparu'r swyddogaeth comisiynu iechyd arbenigol ar gyfer gwasanaethau trydyddol a gwasanaethau aciwt arbenigol iawn eraill ledled Cymru. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, fi yw archwiliwr allanol yr asiantaeth, a fydd yn paratoi ei chyfrifon cyntaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004.

GIG Cymru

- 7.4 Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, nodais y newidiadau i gwmpas fy ngwaith o ganlyniad i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2003, diddymwyd y pum awdurdod iechyd a sefydlwyd 22 o Fyrddau Iechyd Lleol yn eu lle. Felly y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 fydd y cyntaf i'w paratoi gan y Byrddau. Caiff y rhain eu harchwilio gan archwiliwr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio a byddaf yn gyfrifol am archwilio'r cyfrif cryno i'w baratoi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- 7.5 O dan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 crëwyd dau gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a fi yw'r archwiliwr allanol arnynt: Canolfan Iechyd Cymru; a Proffesiynau Iechyd Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o sicrhau ansawdd hyfforddiant nyrsys cyn cofrestru, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a gwaith sicrwydd ansawdd. Roedd y Ddeddf yn galluogi'r Cynulliad i sefydlu Proffesiynau Iechyd Cymru fel corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar 1 Ebrill 2004. Fodd bynnag, ers 1 Ebrill 2002, roedd ei swyddogaethau wedi'u cyflawni gan uned yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac felly archwiliais ei datganiadau ariannol cyntaf yn ystod 2003.
- 7.6 Mae Canolfan Iechyd Cymru yn gorff hyfforddi, cyngori ac ymchwil annibynnol, sy'n dwyn ynghyd wybodaeth a thystiolaeth ac yn rhoi cyngor y gall y rhai sy'n llunio polisiau seilio eu penderfyniadau arnynt, a'u defnyddio i gydlynu'r gwaith o arolygu tueddiadau ym maes iechyd gan weithwyr proffesiynol ac ymgymryd ag asesiadau risg o fygythiadau i iechyd a lles. Ar 1 Mehefin 2002, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Ganolfan fel is-adran fusnes ar wahân yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sefydlu'r Ganolfan fel corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn weithredol o 1 Ebrill 2005.

Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru

7.7 Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, nodais fod y Trysorlys wedi cyflwyno ei phrosiect 'Cyfrifon Llywodraeth Gyfan' ac wedi rhoi crynodeb o'r hyn y mae'r Cynulliad wedi'i gyflawni hyd yma yn erbyn targedau'r Trysorlys. Nod y prosiect yn y pen draw yw paratoi cyfrifon cyfunol megis rhai masnachol ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yn y Deyrnas Unedig.

7.8 Mae'r Trysorlys yn cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan ar ddau gam:

- (i) Paratoi 'Cyfrif Llywodraeth Ganolog', gan gynnwys canlyniadau ariannol adrannau'r llywodraeth, cronfeydd canolog, y gweinyddiaethau datganoledig, a chyrrff cyhoeddus anadrannol (yng Nghymru, cyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad)
- (ii) Paratoi 'Cyfrif Llywodraeth Gyfan', gan gynnwys canlyniadau ariannol cronfeydd masnachu, corfforaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau GIG yn ogystal.

Noda **Ffigur 17** amserlen bresennol y prosiect.

17 Yr amserlen ar gyfer paratoi Cyfrifon Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Gyfan

	Blwyddyn Ariannol	Statws
Cyfrifon Llywodraeth Ganolog	2002-03	Ffug ymarfer
	2003-04	Cyhoeddwyd
Cyfrif Llywodraeth Gyfan	2004-05	Ffug ymarfer
	2005-06	Ffug ymarfer
	2006-07	Cyhoeddwyd

Ffynhonnell: Trysorlys Em

7.9 Yng Nghymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn paratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan i Gymru o fewn terfynau amser datblygu sy'n cydreded â Chyfrifon Llywodraeth Ganolog a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl paratoi Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru cyhoeddus ar gyfer 2003-04; yna bydd nifer y cyrrff cyhoeddus a gynhwysir yn y Cyfrif yn cynyddu yn unol ag amserlen y Trysorlys ar gyfer Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

7.10 Mae Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydlynu'r broses o baratoi Cyfrifon Llywodraeth Ganolog a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys paratoi is-gyfuniad o ganlyniadau ariannol y Cynulliad ei hun ynghyd â chanlyniadau'r cyrrff eraill sy'n rhan o'r Cyfrifon yng Nghymru, megis cyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, i'w trosglwyddo ymlaen i'r Trysorlys.

7.11 Ar gyfer ffug ymarfer paratoi Cyfrif Llywodraeth Ganolog roedd yn ofynnol i Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno ei ffurflen is-gyfuno i'r Trysorlys erbyn dyddiad terfynol sef 19 Rhagfyr 2003 ac roedd yn ofynnol bod y wybodaeth hon wedi'i harchwilio gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru erbyn diwedd mis Ionawr 2004. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwybodaeth ar 18 Mawrth 2004. Y rheswm dros yr oedi cyn cyflwyno cyfrifon y ffug ymarfer oedd y llithriant wrth baratoi cyfrif adnoddau cyfunol y Cynulliad ei hun yn bennaf oherwydd anawsterau i ddilysu gwybodaeth am gredydwy'r WEFO. O ganlyniad i'r oedi, y Cynulliad oedd y corff olaf yn y DU i gyflwyno ei ffurflen ar gyfer ffug ymarfer Cyfrifon Llywodraeth Ganolog 2002-03 i'r Trysorlys. Yn yr un ymarfer yn 2001-02, y Cynulliad oedd y chweched corff i gwblhau'r dasg.

7.12 Mae'n debygol y bydd yr amserlen ar gyfer paratoi'r Cyfrif Llywodraeth Ganolog cyntaf i'w gyhoeddi yn 2003-04 yn fwy tynn na'r amserlen ar gyfer cyfrifon y ffug ymarferion yn y gorffennol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Trysorlys wedi cyflwyno menter "cau cyflymach" a fydd yn ei gwneud yn ofynnol, o 2005-06, i adrannau'r llywodraeth osod eu cyfrifon adnoddau gerbron y Senedd erbyn toriad yr haf. Er bod yr amserlen ar gyfer paratoi cyfrifon y Cynulliad ei hun yng Nghymru wedi'i gosod gan Ddeddf Llywodraeth Cymru, nid yw hyn yn rhagwahardd paratoi'r cyfrifon hyn yn gynt.

7.13 Bydd y bwriad i gyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (gan gynnwys Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru) ynghyd â'r fenter cau cyflymach yn rhoi mwy o bwysau ar y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i baratoi eu cyfrifon yn ôl amserlenni tynnach nag yn y gorffennol. Croesawaf y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i roi arweiniad a chymorth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran y broses hon tra'n cydnabod bod angen gwelliannau sylweddol o hyd i'r broses o baratoi cyfrifon yn gyffredinol.

Un Corff Archwilio i Gymru

7.14 Yn fy Adroddiad Cyffredinol diwethaf, nodais ddatblygiadau deddfwriaethol i sefydlu un corff archwilio i Gymru o 2005. Byddai'r corff, o dan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ymgorffori'r gwaith a wneir ar hyn o bryd yng Nghymru gan y Comisiwn Archwilio ac, ar fy rhan i, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

7.15 Erbyn dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) wedi cwblhau ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ac roedd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Cyffredin. Rhoddaf ragor o fanylion am y datblygiadau yn fy Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2003-04.

Ychwanegu gwerth

7.16 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn parhau i roi cyngor i sefydliadau cleient, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar amrywiaeth o faterion ariannol. Erys Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod y Cynulliad a'r chyrrff a noddir ganddo yn cynnal safon dda o reoleidd-dra a phriodoldeb yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac wrth wasanaethu pobl Cymru.

Atodiad A

Rhestr o Adroddiadau Gwerth am Arian a gyhoeddwyd yn 2002-03

- Parhau i Adfywio Bae Caerdydd
- Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru
- Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru
- Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru
- Osiris: y contract Menter Cyllid Preifat ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol: adroddiad diweddar
- Rheoli ystad Addysg Bellach yng Nghymru
- Caffael meddyginiaethau gofal sylfaenol

B Atodiad

Cyfrifon a gwmpesir yn yr adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu pob un o gyfrifon 2002-03 a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus eraill a archwilir gennyf. Rhoddir rhestr gyflawn isod:

Cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- Cyfrif Adnoddau Craidd y Cynulliad
- Cyfrif Adnoddau Cyfunol y Cynulliad
- Cadw
- Ardrethu Annomestig Cymru
- Cyfrif Cryno Awdurdodau Iechyd (cyfrif cau)
- Cyfrif Cryno Ymddiriedolaethau GIG
- Cyfrif Cryno Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaethau
- Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru
- Cyfrif Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad
- Proffesiynau Iechyd Cymru

Cyfrifon a baratowyd gan gyrrff eraill wedi'u categorio yn ôl maes

Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Menter Coedwigaeth Cymru

Datblygu Economaidd

- Bwrdd Croeso Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Cyngor Gofal Cymru
- Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Addysg a Dysgu Gydol Oes, Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Cyfrif Cynllun Pensiwn Staff
- Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Eraill

- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

Cyfrifon Cymru a archwiliwyd gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Roedd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon canlynol ar gyfer 2002-03 yng Nghymru:

Cyfrif adnoddau Ysgrifenydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

Paratwir y cyfrif hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ran Swyddfa Cymru, ond gan ei bod yn un o adrannau Whitehall caiff ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (DS: o 2003-04 caiff cyfrifon Swyddfa Cymru eu hymgorffori yng nghyfrifon yr Adran Materion Cyfansoddiadol, sef adran newydd o'r llywodraeth a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2003);

Cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri y Cyngor Chwaraeon a Chyngor y Celfyddydau

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gyrrff sy'n dosbarthu arian y Loteri. Mae'r ddau yn paratwir datganiad cyfrif blynyddol ar wahân ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau yn ymwneud â'r Loteri. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn gyfrifoldebau datganoledig. Yn hytrach fe'u cyflawnir o dan awdurdod dirprwyedig gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;

Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewropas

Mae'r gronfa Ewropeaidd hon yn talu cymorthdaliadau i ffermwyr yng Nghymru, drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Nid yw hon yn swyddogaeth a ddatganolwyd, a pharatwir cyfrif blynyddol gan bob corff ar y ffurf a ragnodir gan y Comisiwn Ewropeaidd.